

Dydd Sadwrn y Pasg

“Y cwpan hwn yw’r cyfamod newydd yn fy ngwaed i, sy’n cael ei dywallt er eich mwyn chwi.” (adn. 20)

Beth am ddarlenn Luc 22:20–30 ac yna myfyrio

Roedd Iesu wedi marw ac wedi’i gladdu erbyn dydd Sadwrn y Pasg, a’r freuddwyd fel petai wedi’i chwalu. Ac roedd llawer o dywyllwch ar led, o’r tywyllwch moesol ac ysbrydol yng nghalon Jwdas y bradychwr, i’r tywyllwch ffisegol a ddiffoddodd yr haul a thafu cysgod marwolaeth dros y tir (Math. 27:45).

Ond yn erbyn y cefndir du hwn o bechod a hunanoldeb, roedd y golau’n disgleirio fwyfwy. Pan gafodd Iesu ei wrthod mewn ffordd mor fileinig, roedd fel petai hen stori hyll pechod dynol yn cyrraedd ei hanterth, ond, mewn gwirionedd, roedd Iesu’n ysgrifennu sgrïpt newydd yn hanes ymrwymiad Duw yn ei gyfamodau. Cofiwch mai gwaed y cyfamod newydd ydy gwaed Iesu. Yn y cyfamod yma, gall y calonnau tu hwnt o bechadurus a gynllwyniodd ei farwolaeth gael eu trawsnewid mewn ffordd ryfeddol, gan felly hyrwyddo, ac nid tanseilio, bwriadau Duw. Yn y cyfamod newydd yma, a gafodd ei gyhoeddi am ganrifoedd lawer gan y proffwydi, mae pechodau’n cael eu maddau a’u hanghofio, ac mae gras yn meddalu calonnau caled i adnabod yr Arglwydd ac i fod yn fodlon gwneud ei ewyllys. Bydd Ysbryd Duw yn llifo i mewn i’n calonnau i’n grymuso i fyw mewn cariad, sancteiddrwydd a geirwiredd. Lle mae dynion drwg yn gwneud eu gwaethaf, mae Duw yn gwneud ei orau. Ac fel y seliwyd yr hen gyfamod â gwaed aberthol, felly hefyd y cyfamod newydd yma – ond y tro hwn â gwaed y Meseia, Mab Duw, Iesu Grist.

Felly, wrth i chi gyfranogi o’r bara a’r gwin yn y Cymun Bendigaid, ceisiwch adnewyddu eich ffydd yn ymrwymiad cyfamodol rhyfeddol Duw i ni ac i weithio o’n mewn. Yn enw Duw boed i ni roi’r gorau i’r ffraeo pitw sy’n aflunio corff Crist, yr Eglwys, a boed i ni ein darostwng ein hunain i wasanaethu fel y gallwn ryw ddydd lywodraethu yn nheyrnas y dyfodol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Jer. 31:31–34; 1 Cor. 15:9–10; 1 Tim. 1:12–17; 1 Pedr 2:4–12

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa mor ddiolchgar oedd Paul am ras drawsnewidiol Duw yn ei fywyd?
2. Yn ôl Pedr, beth ydy tasgau pobl etholedig Duw?

Gweddi

O Dad, helpa fi i roi’r gorau i bopeth sydd heb fod ohonot ti ac i ddo i brofiad dyfnach nag erioed o’r blaen o adnewyddiad personol. Gofynnaf hyn yn enw Iesu. Amen.